



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Proses a thempled ar gyfer pennu arwyddocâd. Beth yw eu diben?

**CyMAL**

Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru

# Diolchiadau

Gwelwyd datblygiadau sylweddol ar lefel genedlaethol ac ar lefel ryngwladol o ran datblygu modelau ar gyfer pennu arwyddocâd casgliadau a gwrthrychau. Rydym wedi ystyried Model Cyngor Casgliadau Awstralia yn benodol, sef Significance 2.0, ac rydym wedi cyfeirio at y gwaith a wnaed gan Caroline Reed ar ran Renaissance East Midlands a'r gwaith a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth Gasgliadau ar ei Fframwaith Adolygu Arwyddocâd. Darparodd y gwaith y mae Amgueddfa Cymru wedi'i wneud ar Fatrics Lefelau Derbyn Eitemau'n Ffurfiol wybodaeth ar gyfer y dull gweithredu hwn.

## Hoffem ddiolch i'r canlynol yn arbennig:

- Amgueddfa Y Fenni – Megan DeSilva a Rachael Rogers;
- Amgueddfa Cymru (AC-NMW) – aelodau'r Grŵp Lefelau Derbyn Eitemau'n Ffurfiol (maent hwythau, yn eu tro, yn ddiolchgar i Wasanaeth Amgueddfeydd Hampshire a'i enghraifft o grid matrices);
- Amgueddfa Sir Gaerfyrddin – Ann Dorsett;
- Caroline Reed;
- *Collections Trust*;
- Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy – Helen Bradley;
- Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Cyfarthfa – Scott Reid;
- Peter Alexander;
- Peter J. David, a
- Significance International – Veronica Bullock.

<b>Rhan 1: Cefndir</b>	<b>5</b>
1. Cyflwyniad	5
2. Diffiniad o arwyddocâd	6
3. Pam arwyddocâd?	7
4. Cyd-destun strategol	8
4.1 Strategaeth Amgueddfeydd Cymru	8
5. Safonau proffesiynol	9
5.1 Cynllun Achredu'r DU	9
5.2 PAS 197: 2009 Code of practice for cultural collections management	9
5.3 SPECTRUM 4.0	9
5.4 Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd	10
5.5 Y diffiniad o arwyddocâd mewn safonau Ewropeaidd	10
<b>Rhan 2: Y broses</b>	<b>11</b>
6. Meini prawf yr asesiad o arwyddocâd	11
6.1 Y pedwar gwerth allweddol	12
6.2 Y pedwar maen prawf cymharol	12
6.3 Lefel yr arwyddocâd	13
7. Dulliau o asesu arwyddocâd	13
7.1 Matrics arwyddocâd	13
7.2 Asesiad llawn o arwyddocâd	14
8. Manylion y matrics arwyddocâd	14
8.1 Ar gyfer beth y gallaf ddefnyddio'r matrics?	14
8.2 Pwy all gynnal asesiad matrics?	15
8.3 Defnyddio'r matrics	15
8.4 Prif gamau'r matrics arwyddocâd	16
8.5 Cyfuniadau'n ymwneud ag arwyddocâd	16
8.6 Diffiniadau	17
8.7 Grid y matrics	18
8.8 Allwedd y matrics	19

9. Y broses a'r templed llawn ar gyfer pennu arwyddocâd	20
<b>Astudiaeth achos: Casgliad serameg Gwasanaeth Amgueddfeydd Merthyr Tudful</b>	<b>20</b>
<b>Astudiaeth achos: Casgliad o ffotograffau John Francis Lloyd yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin</b>	<b>20</b>
9.1 Ym mhle y dylai'r wybodaeth gael ei storio?	21
9.2 Beth y gellir ei asesu?	21
9.3 Eitemau sydd wedi ôl-gronni	21
9.4 Pwy all gynnal yr asesiad?	21
10. Y prif gamau ar gyfer cynnal yr asesiad llawn o arwyddocâd	23
10.1 Dadansoddi'r gwrthrych/casgliad	23
10.2 Asesiad o gyflwr	23
10.3 Ymchwil a chefnidir	24
10.4 Cymharu: lleoedd ac eitemau cysylltiedig	25
10.5 Pennu arwyddocâd ar sail y meini prawf	25
<b>Rhan 3: Y templed</b>	<b>27</b>
11. Ysgrifennu eich datganiad o arwyddocâd	27
12. Beth nesaf?	32
13. Cyfeiriadau	32
14. Llyfryddiaeth	33
15. Gwefannau	33
Grid y matrices	34-35
<b>Atodiadau</b>	<b>36</b>
i. Significance 2.0	36
ii. REM. <i>Reviewing Significance: a framework for assessing museum collections' significance, management and use</i>	36
iii. Amgueddfa Cymru – <i>National Museum Wales (AC-NMW): Significance assessment grid and levels of accessioning matrix</i>	37

# Rhan 1. Cefndir

## 1. Cyflwyniad

Sut y gallwn benderfynu beth i'w gasglu a beth i beidio â'i gasglu, oni bai ein bod yn deall arwyddocâd yr eitemau a gaiff eu cynnig?

Sut y gallwn wneud penderfyniadau ynghylch gofalu am ein casgliadau a'u datblygu, os nad ydym yn deall arwyddocâd yr hyn sydd gennym?

Os nad ydym yn deall arwyddocâd ein casgliadau, sut y gallwn gyfleu eu hystyr i eraill?

Diben y ddogfen hon yw helpu sefydliadau i fynd i'r afael â'r cwestiynau uchod, ac mae'n darparu dau ddull syml o asesu arwyddocâd. Y dull cyntaf yw defnyddio'r matrices arwyddocâd, sydd wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gyda phob math o wrthrychau a chasgliadau. Yr ail ddull yw defnyddio'r asesiad llawn o arwyddocâd, sy'n gofyn am waith ymchwil mwy trylwyr i ategu'r broses o bennu arwyddocâd.

**Caiff arwyddocâd gwrthrych neu gasgliad ei ddiffinio drwy ystyried pedwar gwerth allweddol:**

- Gwerth hanesyddol
- Gwerth celfyddydol / esthetaidd
- Gwerth cymdeithasol
- Gwerth gwyddonol / technolegol.

**Caiff y gwerthoedd hyn eu hystyried yn erbyn pedwar maen prawf cymharol:**

- Tarddiad
- Prinder neu natur gynrychioliadol
- Cyflwr neu Gyflawnrwydd
- Capasiti o ran dehongli.

Caiff y broses o bennu arwyddocâd ei disgrifio'n fanylach yn rhan dau y ddogfen hon.

Mae asesiadau o arwyddocâd yn cydnabod cyd-destun ehangach gwrthrych neu gasgliad, ac maent yn adlewyrchu'r gwerthoedd a bennwyd iddynt.

Maent yn crynhoi gwybodaeth berthnasol ac yn ei dwyn ynghyd mewn un man.

Mae hynny'n creu corff o wybodaeth y gellir ei ddefnyddio at sawl diben o ran ategu penderfyniadau ynghylch rheoli casgliadau, ac sy'n gallu cynorthwyo sefydliad i gasglu'n effeithiol dros y tymor hir.

**Yn benodol, gall pennu arwyddocâd helpu i wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:**

- Derbynnu eitemau'n ffurfiol;
- Cael gwared ar eitemau'n ffurfiol;
- Rheoli adnoddau;
- Adolygu casgliadau;
- Datblygu arddangosfeydd;
- Blaenoriaethu gwaith;
- Cynllunio prosiectau cadwraeth;
- Pennu blaenoriaethau o ran yr hyn y dylid ei achub;
- Gwneud ceisiadau am gyllid.

Dylai'r broses o bennu arwyddocâd ategu gwaith dogfennu sy'n digwydd eisoes ac ymhelaethu arno, a dylai asesiadau lywio'r modd y mae sefydliad yn datblygu ei gasgliadau, a ddylai yn ei dro gyfrannu at y fframwaith cynllunio strategol ehangach.

Ceir disgwyliad cynyddol ymysg cyrff llywodraethu a chyllidwyr y dylai sefydliadau sy'n casglu ddeall arwyddocâd eu casgliadau ac y dylent fod yn gallu cyfleu'r arwyddocâd hwnnw. Cynigir yr adnodd hwn fel cymorth i helpu sefydliadau sy'n casglu i fodloni'r disgwyliadau hynny.

## 2. Diffiniad o arwyddocâd

Mae arwyddocâd yn sefydlu, yn diffinio ac yn cyfleu'r holl ystyr a'r holl werthoedd diwylliannol y mae pobl a chymunedau'n eu priodoli i wrthrychau a chasgliadau.

**Arweiniodd gwaith a wnaed yn Awstralia at ddatblygu model sy'n diffinio'r cysyniad o arwyddocâd yng nghyd-destun sefydliad sy'n casglu:**

*Significance refers to the values and meanings that items and collections have for people and communities. Significance helps unlock the potential of collections, creating opportunities for communities to access and enjoy collections, and to understand the history, cultures and environments (Russell, R. & Winkworth, K. 2009, 1).*

*Significance assessment logically analyses, explores and articulates the meaning and values of items and collections (Russell, R. & Winkworth, K. 2009, 4).<sup>1</sup>*

Mae'r diffiniad hwn o arwyddocâd yng nghyd-destun sefydliad sy'n casglu yn briodol i'n dibenion ni yng Nghymru, ac mae wedi'i fabwysiadu i lywio'r broses o ddatblygu'r templed ar gyfer pennu arwyddocâd.

<sup>1</sup>Russell, R. Winkworth, K. 2009. *Significance 2.0: a guide to assessing the significance of collections*. Cyngor Casgliadau Awstralia.

### 3. Pam arwyddocâd?

Er mwyn gallu dehongli ein gwrthrychau a'n casgliadau'n gywir, mae'n hanfodol ein bod yn deall eu cyd-destun. Mae asesiadau o arwyddocâd yn ystyried y modd y mae gwrthrych neu gasgliad yn cyd-fynd â'r casgliad cyfan a'r sefydliad.

Mae asesiadau o arwyddocâd yn cyfuno'r holl wybodaeth berthnasol am wrthrych neu gasgliad, y gellir ei chrynhai wedyn mewn un datganiad er mwyn cyfleu'r wybodaeth yn hawdd i randdeiliaid, rheolwyr, ymddiriedolwyr a chyllidwyr.

Bydd datganiadau o arwyddocâd yn atgyfnerthu gwerth hanesyddol neu werth diwylliannol gwrthrych neu gasgliad, a byddant yn cyfrannu at ddatblygu trosolwg sy'n cyfleu cryfder casgliad yr amgueddfa a'i berthnasedd i ddefnyddwyr.

#### **Bydd asesiad o arwyddocâd yn helpu i:**

- gyfiawnhau penderfyniadau ynghylch rheoli casgliadau;
- llywio ac ategu gwaith cynllunio strategol eich sefydliad, trwy gynorthwyo penderfyniadau ynghylch rheoli casgliadau;
- bodloni gofynion o ran Achredu wrth greu polisi datblygu<sup>2</sup>;
- cyfleu'r ystod o werthoedd sy'n gysylltiedig â gwrthrych neu gasgliad i randdeiliaid;
- crynhai corff o wybodaeth i'w ddefnyddio yn y tymor hir;
- hybu dealltwriaeth o gyd-destun eich casgliadau.

Byddai o fudd i sefydliadau gynnal asesiadau o arwyddocâd yng nghyswllt eu casgliadau a dangos eu bod yn gallu nodi ym mhle y mae cryfderau eu casgliadau.

Dylai'r datganiad a lunnir drwy ddefnyddio'r asesiad llawn o arwyddocâd gael ei gadarnhau gan weithiwr proffesiynol sy'n deall yr eitem neu'r casgliad dan sylw ac sy'n deall y cysyniad o arwyddocâd. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod datganiadau yn parhau'n wrthrychol ac yn berthnasol.

Wrth i'r adnoddau sydd gan sefydliadau brinhau, mae'n debyg y bydd mwy o angen am asesiadau o arwyddocâd. Mae storffeydd amgueddfeydd yn llenwi'n gyflym, ac rydym dan bwysau i wneud rhagor â llai o adnoddau. Bydd angen bob amser rhesymoli a chyfiawnhau penderfyniadau ynghylch rheoli casgliadau. Bydd datganiad o arwyddocâd a luniwyd wrth dderbyn gwrthrych neu gasgliad yn ffurfiol yn nodi'n glir y rhesymau dros dderbyn gwrthrych neu gasgliad i'r sefydliad, a bydd yn ategu dadleuon ynghylch pam y mae angen clustnodi adnoddau i wrthrych / casgliad er mwyn ei warchod ar gyfer y tymor hir.

<sup>2</sup>2011: Accreditation Scheme for Museums and Galleries in the United Kingdom. Cyngor Celfyddydau Lloegr. Adran 2: Collections Guidance



## 4. Cyd-destun strategol

Ar lefel genedlaethol, mae'r cysyniad o bennu arwyddocâd i gasgliadau'n magu momentwm. Caiff hynny ei adlewyrchu mewn dogfennau polisi a dogfennau strategol ynghylch rheoli casgliadau, a lunnir ar gyfer y sector yn y Deyrnas Unedig.

### 4.1 Strategaeth Amgueddfeydd Cymru

Yn Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015, nodwyd bod pennu arwyddocâd yn fodd i sefydliadau ddeall pwysigrwydd a pherthnasedd eu casgliadau yn well.

Yna, gellir defnyddio'r wybodaeth i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau er mwyn rheoli casgliadau'n effeithiol.

**Yn y strategaeth, mae CyMAL wedi addo:**

- Datblygu offer i helpu amgueddfeydd i asesu, deall a mynegi pwysigrwydd llawn eu casgliadau, gan ddefnyddio'r wybodaeth i gynorthwyo wrth reoli casgliadau.
- Datblygu prosiect peilot ar ddiffinio pwysigrwydd.

Strategaeth Amgueddfeydd Cymru t. 26.<sup>3</sup>

Mae'r dull hwn o ddiffinio arwyddocâd wedi'i ddatblygu i gyflawni nodau ac amcanion Strategaeth Amgueddfeydd Cymru.

<sup>3</sup>Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015. Llywodraeth Cymru.  
<http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymall/museums/strategy/?lang=cy>



## 5. Safonau proffesiynol

Mae dogfennau'n ymwneud â safonau proffesiynol yn rhoi arweiniad i sefydliadau ar waith craffu effeithiol a phriodol, ac maent yn gosod safonau ar gyfer amgueddfeydd ac orielau sy'n ceisio ennill statws achrededig a'i gynnal. Isod, ceir canllaw cryno i rai o'r safonau mwyaf perthnasol ynghyd â gwybodaeth am y modd y gall asesiadau o arwyddocâd helpu sefydliadau i fodloni'r gofynion hynny.

### 5.1 Cynllun Achredu'r DU

Y Safon Achredu yw'r safon genedlaethol ar gyfer amgueddfeydd yn y DU.

Mae'r Cynllun Achredu Amgueddfeydd yn dangos cyflawniadau amgueddfa ym maes rheoli amgueddfa, gofalu am gasgliadau a darparu gwasanaeth cyhoeddus. Er mwyn llwyddo i ennill statws achrededig, rhaid i amgueddfa fodloni gofynion penodol yng nghyswllt safonau gofal, a rhaid iddi ddarparu dogfennau perthnasol sy'n dangos ymrwymiad y sefydliad i waith rheoli amgueddfa.

Mae darparu polisi datblygu yn un o ofynion y broses o ennill a chynnal statws achrededig, a rhaid i'r polisi hwnnw gynnwys trosolwg o'r casgliadau cyfredol.

Byddai asesiad o arwyddocâd o gymorth wrth greu trosolwg o gasgliadau cynhwysfawr ac yn galluogi'r amgueddfa i: *'identify areas of strength and significance, as well as the unique nature of the museum'* (Guidance for Collections, Cyngor Celfyddydau Lloegr: Tudalen 7).<sup>4</sup>

I gael arweiniad pellach ar ofynion y Cynllun Achredu, cymerwch gip ar y dogfennau y mae Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi'u cyhoeddi.<sup>5</sup>

### 5.2 PAS 197: 2009 Code of practice for cultural collections management

Mae Adran 4: Collections Development y ddogfen Publicly Available Specification 197 yn cyfeirio at asesiadau o arwyddocâd. Mae'r PAS 197 yn cydnabod bod asesiadau o arwyddocâd yn ffordd ddefnyddiol o reoli tŵf casgliadau yn effeithiol.

### 5.3 SPECTRUM 4.0: Safon ar gyfer gwaith dogfennu gan amgueddfeydd

SPECTRUM 4.0 yw'r ddogfen sylfaenol ar gyfer amgueddfeydd sy'n rheoli casgliadau. Mae prif weithdrefnau SPECTRUM yn rhan ganolog o'r Safon Achredu, ac mae SPECTRUM yn cefnogi'r broses o weithredu PAS197 trwy roi arweiniad manwl i ddefnyddwyr ar sut i reoli casgliadau'n effeithiol.<sup>6</sup>

Bydd y broses o bennu arwyddocâd yn helpu sefydliadau i ddatblygu'r cofnodion helaeth<sup>7</sup> sy'n ddymunol ar gyfer gwrthrych cymhleth arwyddocaol. Mae SPECTRUM 4.0 yn cydnabod y gall statws ac arwyddocâd newid gydag amser, ac felly mae'n bosibl y bydd yn rhaid ailwerthuso'r defnydd a wneir o wrthrych er mwyn adlewyrchu'r newid hwnnw. *'An object may change its status (may be recognised, for example, as unique),*

<sup>4</sup> 2011: Accreditation Scheme for Museums and Galleries in the United Kingdom. Cyngor Celfyddydau Lloegr. Adran 2: Collections Guidance. t.7

<sup>5</sup> [www.artscouncil.org.uk/what-we-do/supporting-museums/accreditation-scheme/](http://www.artscouncil.org.uk/what-we-do/supporting-museums/accreditation-scheme/) 01/06/2012

<sup>6</sup> British Standards Institute (BSI). 2009. Publicly Available Specification (PAS) 197:2009 Code of practice for cultural collections management)

<sup>7</sup> SPECTRUM, 2005: 75

or may be able to be operated carefully for a limited time without suffering. We therefore suggest a more sophisticated approach based on regular assessment of each objects importance. What matters is that each museum should adopt and stick to a clear policy' (SPECTRUM, 2005; 38)<sup>8</sup>.

Wrth ymdrin â'r broses o gael gwared ar wrthrych yn ffurfiol, mae SPECTRUM 4.0 yn mynnu bod sefydliadau'n gwerthuso gwerth y gwrthrych o safbwynt diwylliannol, hanesyddol a gwyddonol, ac mae'n mynnu bod adolygiad yn cael ei gynnal o gyd-destun casgliadau cyfredol wrth ddadlau dros gael gwared ar wrthrych<sup>9</sup>. Mae asesiad llawn o arwyddocâd yn galluogi sefydliadau i fodloni'r gofyniad hwn yn drwyadl ac yn effeithiol.

## 5.4 Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd

Mae gan bob sefydliad sy'n casglu gyfrifoldeb i gasglu'n foesegol ac yn unol â'i bolisi caffael. Dylid cadw'r casgliad yn y lleoliad sy'n darparu'r cydbwysedd gorau o ran gofal, cyd-destun a mynediad<sup>10</sup>.

Disgwylir i amgueddfeydd ddatblygu casgliadau dros y tymor hir ac adolygu eu polisiau'n rheolaidd.

### **Mae cymdeithas yn disgwyl i amgueddfeydd:**

- ddal casgliadau dan ymddiried ar ran cymdeithas;
- gaffael eitemau yn onest ac yn gyfrifol;

- ddiogelu budd tymor hir y cyhoedd yn y casgliadau;
- gydnabod buddiannau pobl sydd wedi gwneud, wedi defnyddio, wedi bod yn berchen, wedi casglu neu wedi rhoi eitemau yn y casgliadau;
- ymchwilio, rhannu a dehongli gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chasgliadau, gan adlewyrchu amrywiaeth barn;
- adolygu perfformiad er mwyn arloesi a gwella<sup>11</sup>.

Gall pennu arwyddocâd gwrthrychau a chasgliadau helpu sefydliadau i fodloni'r gofynion moesegol trwy grynhoi'r sylfaen dystiolaeth sy'n cyfiawnhau'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch casgliadau, sy'n gymhleth ac sydd weithiau'n heriol.

## 5.5 Y diffiniad o arwyddocâd mewn safonau Ewropeaidd

Mae'r Pwyllgor Safoni Ewropeaidd wedi cyhoeddi safon sy'n ymwneud â'r prif dermau a diffiniadau cyffredinol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys diffiniadau ynghylch arwyddocâd a gwerth. Mae'r ffaith bod y diffiniadau hyn wedi'u cynnwys yn y safon yn arwydd o'r pwys a roddir ar gydnabod arwyddocâd gwrthrychau a chasgliadau yng nghyd-destun gwarchod eiddo diwylliannol<sup>12</sup>.

<sup>8</sup>SPECTRUM, 2005; 38 o *Museum & Galleries Commission Standards in the Museum Care of Larger and Working objects: Social and Industrial History Collections*. 1994

<sup>9</sup>SPECTRUM 4.0, 2010; 90. *De-accessioning and Disposal*.

<sup>10</sup>*Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd*. 2007. t.11

<sup>11</sup>*Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd*. 2007. t.10

<sup>12</sup>*Y Pwyllgor Safoni Ewropeaidd*. 2011. *Conservation of cultural property - Main general terms and definitions*.

## Rhan 2: Y broses

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r cysyniad o arwyddocâd ac yn rhoi sylfaen i chi ar gyfer archwilio a diffinio arwyddocâd eich casgliadau ymhellach. Mae'r broses a'r templed wedi'u cynllunio i'w defnyddio'n gyffredinol, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi eu haddasu ryw ychydig er mwyn ymdrin â chasgliadau sy'n ymwneud â meysydd megis byd natur a daeareg.

**CANLLAW YN UNIG** yw'r cwestiynau sy'n gysylltiedig â'r templed. Maent yn awgrymiadau ynghylch yr hyn y gallai fod angen i chi ei ystyried er mwyn helpu i sicrhau bod eich arsylwadau mor wrthrychol ag sy'n bosibl. Gallwch lenwi'r templed i'r graddau y mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn caniatáu i chi wneud hynny, ac fe'ch anogir i fanteisio ar wybodaeth pobl eraill.

Cofiwch, bydd datganiad o arwyddocâd yn crynhoi corff o wybodaeth i'w ddefnyddio yn y tymor hir, a bydd yn eich galluogi i gyfleu'r gwerthoedd a bennwyd i wrthrychau a chasgliadau. Y ddogfen hon yw eich canllaw ar gyfer adnabod y math o wybodaeth a hyd a lled y wybodaeth y mae angen i chi ei chrynhai, er mwyn rhoi'r darlun cliriaf posibl i chi o gyd-destun y gwrthrych.

## 6. Meini prawf yr asesiad o arwyddocâd

Mae ein diwylliant yn newid o hyd. Bydd y gwahanol grwpiau sy'n llunio ein cymdeithas yn pennu ystod eang o werthoedd i wrthrychau a gaiff eu cadw mewn casgliadau. Bydd rhai gwerthoedd yn gyffredin i fwy nag un grŵp, ond bydd rhai yn wahanol ac yn benodol i wrthrychau a grwpiau arbennig.

Ceir llawer o wahanol fathau o werthoedd diwylliannol y gellir eu pennu i gasgliadau; fodd bynnag, mae'r pedwar gwerth a restrir isod yn esbonio pam neu sut y mae casgliad neu eitem yn arwyddocaol, ac ystyrir mai'r rhain yw'r gwerthoedd mwyaf perthnasol wrth asesu arwyddocâd casgliadau a gwrthrychau.

Wrth gynnal asesiad, dylid ystyried yr holl werthoedd allweddol i ddechrau er na fyddant i gyd efallai'n berthnasol. Caiff y gwerthoedd allweddol hynny eu croesgyfeirio at bedwar maen prawf cymharol, sy'n cynorthwyo'r broses o bennu lefel yr arwyddocâd.

Mae'r pedwar gwerth allweddol a'r pedwar maen prawf cymharol yn berthnasol i'r matrices arwyddocâd a'r asesiad llawn o arwyddocâd.

## 6.1 Y pedwar gwerth allweddol

1. **Gwerth hanesyddol.** Bydd y gwrthrych neu'r casgliad yn gysylltiedig â pherson, lle neu ddigwyddiad yn y gorffennol, a bydd yn allweddol o ran adrodd stori am thema, proses neu batrwm bywyd penodol. Dylai gyfrannu at ddealltwriaeth o'r gorffennol.
2. **Gwerth celfyddydol neu esthetaidd.** Mae'n ymwneud â'r cysyniad o brydferthwch y mae'r gwrthrych yn ei fynegi. Gallai'r gwrthrych fod yn hynod o brydferth neu'n ofnadwy o hyll, ond mae'n bwysig o safbwynt yr hyn y mae'n ei gynrychioli, er enghraifft ysgol ddylunio, mudiad celfyddydol neu arloesedd a gwreiddioldeb. Gallai fod yn enghraifft o eitem yr oedd angen llawer iawn o grefft a sgil i'w chreu. Gall y gwerth hwn fod yn fater o farn bersonol i raddau helaeth iawn, a gall y cysyniad newid gydag amser a lle.
3. **Gwerth gwyddonol neu dechnolegol.** Gallai fod gan y gwrthrych neu'r casgliad werth gwyddonol neu dechnolegol.
4. **Gwerth cymdeithasol.** Gallai fod gan y casgliad neu'r gwrthrych gysylltiad cyfoes â grŵp penodol o bobl. Dylid ymgynghori â'r grŵp hwnnw ynghylch lefel ei arwyddocâd. At hynny, gallai'r gwrthrych neu'r casgliad fod yn cynrychioli cred, syniad, traddodiad neu arfer sy'n bwysig i'r grŵp penodol hwnnw o bobl.

Fel y nodwyd ar ddechrau adran 2, mae'r ddogfen hon yn ymdrin â chasgliadau yn gyffredinol, a bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i rai casgliadau.

Er enghraifft, gyda chasgliadau byd natur, mae arwyddocâd biolegol y sbesimenau'n allweddol. Felly, bydd angen i chi ystyried meini prawf ychydig yn wahanol. Dylid amlinellu'r meini prawf ar gyfer diffinio arwyddocâd casgliadau megis casgliadau byd natur a daeareg cyn dechrau cynnal eich asesiad o arwyddocâd, er mwyn

sicrhau bod yr un meini prawf yn cael eu defnyddio'n wrthrychol gyda phob sbesimen neu gasgliad.

## 6.2 Y pedwar maen prawf cymharol

### Dyma'r pedwar maen prawf cymharol:

1. **Tarddiad.** Mae'n ymwneud â darganfod y man cychwyn. Er mwyn gallu pennu tarddiad gwrthrych yn effeithiol, dylai fod sylfaen dystiolaeth ar gael sy'n nodi pwy a greodd yr eitem neu'r casgliad, pwy a'i gwnaeth, pwy oedd yn berchen arno / arni neu bwy a'i defnyddiai. Mae angen i'r tarddiad fod yn ddibynadwy, a dylai'r broses o'i ddarganfod fod yn rhan awtomatig o'r gwaith ymchwil a wneir yn ystod y broses asesu.

2. **Prinder neu natur gynrychioliadol.** Gall eitemau fod yn brin ac yn gynrychioliadol. Mae angen i'r gwrthrych neu'r casgliad gael ei ystyried yn rhywbeth anarferol neu'n enghraifft dda o'i fath, yn rhywbeth sydd heb ei debyg, sy'n unigryw neu sydd mewn perygl o ddiplannu.

3. **Cyflwr neu gyflawnrwydd** (ei gyflawnrwydd yn ei ffurf naturiol, h.y. pâr o esgidiau, tebot gyda chaead). Bydd eitem yn ei chyflwr gwreiddiol yn fwy arwyddocaol nag eitem sydd wedi'i hadfer. Dylid ystyried cyflwr y gwrthrych neu'r casgliad a darganfod a yw'n gyfan neu'n gyflawn. Dylid nodi unrhyw dystiolaeth o waith atgyweirio ac addasu a wnaed ac unrhyw dystiolaeth o'r modd y câi'r gwrthrych neu'r casgliad ei ddefnyddio a ph'un a yw'n gweithio o hyd.

4. **Capasiti o ran dehongli.** Gallai'r gwrthrych neu'r casgliad helpu i ddehongli agweddau ar le neu gyd-destun. Gallai fod yn gysylltiedig â chasgliadau ac eitemau eraill, a gallai fod yn berthnasol o ran eu dehongli.

Dylid defnyddio'r meini prawf cymharol uchod i egluro lefel yr arwyddocâd.

## 6.3 Lefel yr arwyddocâd

Caiff lefel yr arwyddocâd ei diffinio ar sail yr holl dystiolaeth a gasglwyd.

### **Dyma'r opsiynau ar gyfer diffinio arwyddocâd:**

- Arwyddocâd ar lefel ryngwladol
- Arwyddocâd ar lefel genedlaethol – Mae hynny'n berthnasol i Gymru a'r DU, a dylid nodi a yw'r eitem yn arwyddocaol
  - Ar lefel genedlaethol o safbwynt Cymru
  - Ar lefel genedlaethol o safbwynt y DU
- Arwyddocâd ar lefel ranbarthol
- Arwyddocâd ar lefel leol.

Mae'n bwysig nodi nad yw casgliad sy'n arwyddocaol ar lefel leol o reidrwydd yn llai gwerthfawr na chasgliad sy'n arwyddocaol ar lefel genedlaethol, oherwydd gallai'r casgliad fod yn berthnasol tu hwnt i ddefnyddwyr lleol.

### **Mae'r meini prawf ar gyfer asesu arwyddocâd yn rhoi arweiniad i chi ar lunio eich datganiad sy'n:**

**Ddiffiniad clir o arwyddocâd gwrthrych neu gasgliad ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol, sy'n seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r meini prawf a'r gwerthoedd.**

## 7. Dulliau o asesu arwyddocâd

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu dwy wahanol lefel o waith asesu arwyddocâd. Mae'r lefelau yn wahanol i'w gilydd o ran trylwyredd yr ymchwil sy'n ofynnol a'r dibenion y mae modd i'r wybodaeth a gesglir gael ei defnyddio ar eu cyfer. Mae'r meini prawf a'r gwerthoedd a nodwyd yn adran 6 yn berthnasol i'r asesiad matrices a'r asesiad llawn.

1. Mae'r matrices arwyddocâd yn ddefnyddiol o ran darparu trosolwg o statws y casgliad.
2. Mae'r asesiad llawn o arwyddocâd yn crynhoi sylfaen dystiolaeth sy'n ategu diffiniad o arwyddocâd yn llwyr, ac mae'n creu corff hawdd ei ddefnyddio o wybodaeth y gellir ei chyfleu i ddefnyddwyr.

### 7.1 Matrics arwyddocâd

O safbwynt ymdrin â chasgliadau, dylai pob sefydliad ddechrau drwy gynnal asesiad matrices. Hwyrach na fydd y casgliadau a'r gwrthrychau a gedwir yn deilwng o asesiad llawn o arwyddocâd, neu hwyrach na fydd gwybodaeth ar gael yn hawdd sy'n ei gwneud yn bosibl cynnal asesiad llawn heb fuddsoddi llawer o amser. Mae'r asesiad matrices yn fodd i gynnal asesiad eithaf cyflym a fydd yn darparu gwybodaeth i'w defnyddio yn fewnol. Dylai defnyddio'r matrices arwain at drosolwg o'r casgliad, a fydd yn eich galluogi i fod yn fwy gwrthrychol wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli casgliadau. Caiff y matrices ei gyflwyno yn adran 8.

Mae asesiad matrices yn darparu trosolwg o arwyddocâd casgliadau a gwrthrychau, a bydd yn helpu i dynnu sylw at wrthrychau a chasgliadau sy'n gofyn am asesiad mwy manwl o arwyddocâd.



## 7.2 Aseiad llawn o arwyddocâd

Bydd yr aseiad llawn o arwyddocâd yn creu sylfaen dystiolaeth sy'n mynegi'n glir ac yn gryno y gwerthoedd diwylliannol sy'n gysylltiedig â gwrthrych, a bydd yn eich galluogi i'w cyfleu'n effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, er enghraifft wrth baratoi ceisiadau am gyllid neu wrth baratoi arddangosfeydd ar gyfer cynulleidfa benodol. Caiff y broses a'r templed eu darparu yn adran 11.

## 8. Manylion y matrices arwyddocâd

### 8.1 Ar gyfer beth y gallaf ddefnyddio'r matrices?

Mae hwn yn fan cychwyn allweddol. Dylid defnyddio'r matrices arwyddocâd gyda PHOB gwrthrych a chasgliad, a dylid defnyddio'r canlyniadau i helpu i nodi pa wrthrychau neu gasgliadau a ddylai fod yn destun aseiad llawn o arwyddocâd.

**Yn benodol byddai'r canlynol yn elwa o fod yn destun aseiad matrices:**

- Casgliadau mwy o faint a chasgliadau sydd wedi ôl-gronni.
- Gwrthrychau heb unrhyw ddogfennau neu wrthrychau y mae nifer y dogfennau sy'n perthyn iddynt yn gyfyngedig.

**Gall y matrices:**

- helpu i sefydlu lefel arwyddocâd ar gyfer gwrthrychau / casgliadau y mae nifer y dogfennau sy'n perthyn iddynt yn gyfyngedig;
- darparu trosolwg o statws y casgliad;
- helpu i benderfynu ble y mae angen cynnal ymchwil pellach;
- helpu i flaenoriaethu ymchwil yn y dyfodol.

Bydd angen i chi gyfeirio'n ôl at y diffiniadau o'r prif feini prawf a'r meini prawf ategol i'ch helpu i sefydlu lefel yr arwyddocâd yn y matrices.

## 8.2 Pwy all gynnal asesiad matrices?

Bydd angen gwybodaeth ddigonol am y casgliad cyn y gellir cynnal yr asesiad. Gall unrhyw un sydd â'r wybodaeth honno ac sy'n gweithio gyda chasgliadau gynnal asesiad o arwyddocâd.

## 8.3 Defnyddio'r matrices

Caiff y matrices ei gyflwyno ar ffurf tabl. Dylid ystyried y gwrthrych neu'r casgliad yn ofalus yng nghyswllt yr asesiad matrices, gan gyfeirio at y prif werthoedd a'r meini prawf cymharol.

Os byddwch o'r farn bod unrhyw eitem yn bwysig ar lefel ryngwladol neu genedlaethol ar ôl cynnal yr asesiad matrices, bydd yn rhaid ystyried o ddifrif a ddylid cynnal yr asesiad llawn o arwyddocâd, oherwydd gallai fod angen sylfaen dystiolaeth arnoch i gefnogi'r honiad hwnnw.

Yn ogystal, efallai y byddwch am ystyried cynnal asesiad llawn o arwyddocâd os yw'r matrices yn nodi y gellid cael gwared ar wrthrychau. Hyd yn oed os yw'r potensial o ran ymchwil a'r dogfennau sydd ar gael yn gyfyngedig ar gyfer gwrthrychau y nodwyd y gellid cael gwared arnynt, mae'n bosibl y bydd y broses o ymchwilio'n fanwl i'r gwrthrych yn esgor ar wybodaeth newydd ac yn sicrhau bod gennych sylfaen dystiolaeth gadarn, glir a chryno sy'n cyfiawnhau eich penderfyniad i gael gwared arno.

Os byddwch yn nodi y gellid cael gwared ar unrhyw eitem neu gasgliad, ar ôl cynnal asesiad o arwyddocâd ar unrhyw lefel, dylech gyfeirio at Becyn Cymorth Gwaredu Cymdeithas yr Amgueddfeydd i gael arweiniad ar y weithdrefn briodol<sup>13</sup>

<sup>13</sup>Cymdeithas yr Amgueddfeydd [www.museumsassociation.org/collections/disposal-toolkit-and-training](http://www.museumsassociation.org/collections/disposal-toolkit-and-training)



## 8.4 Prif gamau'r matrices arwyddocâd

Mae'r tabl isod yn darparu fframwaith ar gyfer nodi lefel yr arwyddocâd ar sail y dystiolaeth a gasglwyd. Mae'n amrywio o'r lefel uchaf o arwyddocâd, sef 1A, i'r lefel isaf o arwyddocâd, sef 7D.

Mae tudalennau 34-35 yn cynnwys copi gwag o grid y matrices sydd wedi'i liwio yn briodol ac sy'n cynnwys y cyfuniadau o lythrennau a rhifau. Gellir argraffu'r copi hwn er mwyn cyfeirio ato'n gyflym.

Gall colofn 2A-D gyfeirio at wrthrych sy'n bwysig ar lefel genedlaethol o safbwynt Cymru neu'r DU. Mae'n bosibl y bydd angen nodi'n glir ar y label neu yn y dogfennau ai o safbwynt Cymru ynteu o safbwynt y DU y mae'n bwysig.

### Er enghraifft:

- 2A – Cymru
- 2D – Y DU

## 8.5 Cyfuniadau'n ymwneud ag arwyddocâd

### Er mwyn cynnal yr asesiad matrices:

1. Dylech benderfynu a yw eich gwrthrych / casgliad yn perthyn i'r grŵp craidd ynteu'r grŵp ategol (gweler y diffiniadau).
2. Dylech ystyried arwyddocâd eich eitem yn erbyn y 4 gwerth allweddol a'r meini prawf cymharol.
3. Dylech ystyried cyflwr eich eitem (dylech benderfynu sut yr ydych yn diffinio'r cyflwr: gweler tudalen 23 - 24 i gael arweiniad).
4. Dylech gymharu echelin x ag echelin y i lunio cyfuniad sy'n cynnwys llythyren a rhif.
5. Dylech gofnodi'r cyfuniad hwn yn eich dogfennau er mwyn cyfeirio'n ôl ato yn fewnol yn y dyfodol.

	Rhyngwladol	Cenedlaethol (Cymru neu'r DU)	Rhanbarthol	Lleol	Trin a thrafod	Atgynyrchiadau	Addurno arddangosfeydd
Da	1A	2A	3A	4A	5A	6A	7A
Gweddol	1B	2B	3B	4B	5B	6B	7B
Gwael	1C	2C	3C	4C	5C	6C	7C
Gwael iawn	1D	2D	3D	4D	5D	6D	7D
Casgliad craidd				Casgliad ategol			

## 8.6 Diffiniadau

### Casgliad craidd

Caiff casgliad craidd y sefydliad ei ddiffinio gan y polisi casglu. Caiff eitemau eu derbyn yn ffurfiol, a bydd safon ofynnol o ofal yn cael ei phennu iddynt.

**(O.N. Atgynrychiadau:** Gall darnau wedi'u comisiynu sy'n werth mwy na swm penodol fod yn rhan o'r casgliad craidd)

### Casgliadau ategol

**Casgliadau at ddibenion addysgu / trin a thrafod:** Eitemau a ddefnyddir wrth drin a thrafod casgliadau neu at ddibenion addysgu. Gellir derbyn rhai gwrthrychau yn ffurfiol.

**Atgynrychiadau:** Gwrthrychau mewn casgliad sydd wedi'u hatgynhyrchu, o bosibl gan ddefnyddio deunyddiau neu ddulliau traddodiadol, er mwyn cynorthwyo â gwaith dehongli thema neu er mwyn hybu dealltwriaeth.

**Addurno arddangosfeydd:** Eitemau sydd heb eu derbyn yn ffurfiol, sy'n aml yn fodern, a ddefnyddir at ddibenion addurno arddangosfeydd. Nid ydynt yn werthfawr, a gellir cael eitemau newydd yn eu lle yn hawdd.

		1	2 Cymru neu'r DU	3	4
		<p><b>Yn bwysig ar lefel ryngwladol o safbwynt:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esthetaidd</li> <li>• celfyddydol</li> <li>• hanesyddol</li> <li>• gwyddonol</li> <li>• cymdeithasol</li> </ul>	<p><b>Yn bwysig ar lefel genedlaethol o safbwynt:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esthetaidd</li> <li>• celfyddydol</li> <li>• hanesyddol</li> <li>• gwyddonol</li> <li>• cymdeithasol</li> </ul>	<p><b>Yn bwysig ar lefel ranbarthol o safbwynt:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esthetaidd</li> <li>• celfyddydol</li> <li>• hanesyddol</li> <li>• gwyddonol</li> <li>• cymdeithasol</li> </ul>	<p><b>Yn bwysig ar lefel leol o safbwynt:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esthetaidd</li> <li>• celfyddydol</li> <li>• hanesyddol</li> <li>• gwyddonol</li> <li>• cymdeithasol</li> </ul>
<b>A</b>	<b>Cyflwr:</b> da	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p>	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p>	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p>	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p>
<b>B</b>	<b>Cyflwr:</b> gweddol	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> uchel</p>	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> uchel</p>	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> uchel</p>	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> uchel</p>
<b>C</b>	<b>Cyflwr:</b> gwael	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> uchel</p>	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> uchel</p>	<p><b>Sefydlogi gan ddefnyddio dulliau cadwraeth ataliol</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> Canolig</p>	<p><b>Sefydlogi gan ddefnyddio dulliau cadwraeth ataliol</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> Canolig</p>
<b>D</b>	<b>Cyflwr:</b> gwael iawn	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> uchel</p>	<p><b>Diogelwch:</b> uchel</p> <p><b>Rheoli mynediad</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> uchel</p>	<p><b>Sefydlogi gan ddefnyddio dulliau cadwraeth ataliol</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> Canolig</p>	<p><b>Sefydlogi gan ddefnyddio dulliau cadwraeth ataliol</b></p> <p><b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> Canolig</p>
		<b>Casgliad craidd</b>	<b>Casgliad craidd</b>	<b>Casgliad craidd</b>	<b>Casgliad craidd</b>

5	6	7
<b>Atgynrychiadau</b>	<b>Yn bwysig o ran addysgu / trin a thrafod</b>	<b>Addurno arddangosfeydd</b>
<b>Diogelwch:</b> Canolig <b>Dylid cyfeirio at y canllawiau ar drin a thrafod ynghylch mynediad</b> <b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> Isel	<b>Diogelwch:</b> Canolig <b>Dylid cyfeirio at y canllawiau ar drin a thrafod ynghylch mynediad</b> <b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> Isel	<b>Diogelwch:</b> Isel
<b>Diogelwch:</b> Canolig <b>Dylid cyfeirio at y canllawiau ar drin a thrafod ynghylch mynediad</b> <b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> Isel	<b>Diogelwch:</b> Canolig <b>Dylid cyfeirio at y canllawiau ar drin a thrafod ynghylch mynediad</b> <b>Blaenoriaeth o ran cadwraeth:</b> Isel	<b>Diogelwch:</b> Isel
<b>Cael gwared ar yr eitem neu'r casgliad?</b>	<b>Cael gwared ar yr eitem neu'r casgliad?</b>	<b>Cael gwared ar yr eitem neu'r casgliad?</b>
<b>Cael gwared ar yr eitem neu'r casgliad?</b>	<b>Cael gwared ar yr eitem neu'r casgliad?</b>	<b>Cael gwared ar yr eitem neu'r casgliad?</b>
<b>Casgliad ategol</b>	<b>Casgliad ategol</b>	<b>Casgliad ategol</b>

Allwedd	
	<b>Cynnal asesiad llawn o arwyddocâd i gefnogi'r honiad</b>
	<b>Cynnal asesiad llawn o arwyddocâd pan fydd angen, h.y. er mwyn gwneud cais am gyllid, adolygu'r casgliad, cael gwared ar eitem neu gasgliad ac ati</b>
	<b>Cynnal asesiad llawn o arwyddocâd er mwyn crynhoi tystiolaeth i gael gwared ar eitem neu gasgliad</b>
	<b>Nid yw'n debygol y bydd angen cynnal asesiad oni bai bod amgylchiadau'n newid</b>

## 9. Y broses a'r templed llawn ar gyfer pennu arwyddocâd

Nod yr asesiad llawn o arwyddocâd yw cynorthwyo sefydliadau i gasglu a rheoli casgliadau'n effeithiol a helpu i asesu, deall a chyfleu arwyddocâd llawn casgliadau.

Mae proses gyffredin wedi'i datblygu ar gyfer amgueddfeydd, archifau a chasgliadau arbennig mewn llyfrgelloedd.

### Amcanion y broses yw:

- llunio datganiad o arwyddocâd sy'n glir, sy'n gryno ac sy'n cynnwys llawer o dystiolaeth;
- ategu penderfyniadau ynghylch rheoli casgliadau;
- cyfiawnhau'r penderfyniad i dderbyn eitemau'n ffurfiol a chael gwared arnynt;
- cefnogi ceisiadau am gyllid.

### Astudiaethau achos

#### Casgliad Serameg Gwasanaeth Amgueddfeydd Merthyr Tudful

Defnyddiodd Gwasanaeth Amgueddfeydd Merthyr Tudful y pecyn cymorth pennu arwyddocâd gyda gwarchodwr serameg, yn bennaf er mwyn nodi pwysigrwydd ei gasgliadau serameg yn Amgueddfa Castell Cyfarthfa a Bwthyn Joseph Parry, o'i gymharu â'u cyflwr, er mwyn darparu blaenoriaethau ar gyfer cadwraeth.



Defnyddiwyd y pecyn cymorth i lunio rhestr fer o'r gwrthrychau mwyaf arwyddocaol yr oedd angen gwneud gwaith arnynt. Defnyddiwyd yr arolwg hefyd i gywiro priodoliadau llawer o ddarnau at ddibenion ymchwil ac i awgrymu opsiynau posibl at ddibenion arddangos yn y dyfodol.



© Hawlfraint Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful

#### Casgliad o ffotograffau John Francis Lloyd yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

Defnyddiodd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin y pecyn cymorth pennu arwyddocâd i asesu ei chasgliad o dros 700 o negatiffau gwydr gan y ffotograffydd lleol, John Francis Lloyd. Cafodd y casgliad ei asesu er mwyn gwerthuso ei arwyddocâd celfyddydol a'i arwyddocâd fel cofnod o orffennol Sir Gaerfyrddin.



O ganlyniad, ar ôl sganio'r holl negatifau gwydr, ymchwiliwyd i 100 o'r negatifau yr aseswyd eu bod o'r pwys mwyaf, ac fe'u rhoddwyd ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Bydd y broses hefyd yn cynorthwyo'r gwaith o ddewis ffotograffau ar gyfer arddangosfa yn y dyfodol.



© Carmarthenshire County Museum

## 9.1 Ym mhle y dylai'r wybodaeth gael ei storio?

Dylid cynnwys y datganiadau ar ffurflenni derbyn eitemau'n ffurfiol, er mwyn sicrhau bod y cyfiawnhad dros dderbyn yr eitemau'n glir. Dylid storio'r wybodaeth ar y system ddogfennu electronig, a dylai aelodau perthnasol o staff allu cael gafael ar y wybodaeth yn hawdd.

## 9.2 Beth y gellir ei asesu?

Gellir defnyddio'r model hwn gyda chasgliadau a gwrthrychau unigol os oes angen ymchwilio'n fwy helaeth i ddiffinio'r arwyddocâd.

## 9.3 Eitemau sydd wedi ôl-gronni

Bydd ôl-gronni'n digwydd pan fydd casgliadau heb eu prosesu'n crynhoi.

Hwyrach na fydd gan eitemau sydd wedi ôl-gronni (rhai gwrthrychau a chasgliadau mwy o faint) y dogfennau neu'r wybodaeth angenrheidiol i gynnal yr ymchwiliad manwl sy'n ofynnol i ategu datganiad o arwyddocâd yn llwyr. Nid yw hynny'n awgrymu nad yw gwrthrych neu gasgliad yn arwyddocaol i'r sefydliad sy'n casglu. Gallai fod yn werthfawr mewn cyd-destunau eraill.

Bydd eitemau sydd wedi ôl-gronni yn cael eu trin a'u dosbarthu yng nghyd-destun y sefydliad sy'n casglu, gan ddefnyddio'r model Matrics. Bydd defnyddio proses y matrics yn nodi'r meysydd lle mae angen gwneud ymchwil ychwanegol.

## 9.4 Pwy all gynnal yr asesiad?

Dylai'r bobl sydd â'r ddealltwriaeth orau o'r casgliad neu'r arteffact gynnal yr asesiad. Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda chasgliadau fod yn gallu cynnal asesiad o arwyddocâd.

Mae'n bwysig bod gan y sefydliad ddull cyson o weithredu. Gellir annog hynny trwy drefnu hyfforddiant i bawb dan sylw a thrwy gynnal trafodaethau rheolaidd ymhlith unrhyw un sy'n ymwneud ag ysgrifennu datganiadau o arwyddocâd. Dylech ystyried cynnal trafodaethau ar draws sectorau ag amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yn eich ardal y gwyddoch eu bod wedi cynnal y broses hon.



Gallai sefydliadau ystyried ymrwymo i bartneriaethau ymchwil â grwpiau diddordeb lleol, a allai ddatgelu ymchwil a gwybodaeth newydd. Gall rhai agweddau ar asesu arwyddocâd, megis gwaith asesu cyflwr, ymddangos yn frawychus ac yn arbenigol, ond mae arwyddocâd yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael i chi. Nid yw'r broses yn un gaeth, a gellir addasu dosbarthiadau os daw gwybodaeth newydd i'r golwg. Os nad ydych yn teimlo bod gennych y wybodaeth i allu asesu gwerth allweddol neu faen prawf cymharol yn hyderus, hwyrach y byddai'n well gofyn am gyngor arbenigol, er enghraifft gan warchodwr neu guradur arbenigol.



## 10. Y prif gamau ar gyfer cynnal yr asesiad llawn o arwyddocâd

Dyma'r camau a argymhellir, a fydd yn arwain y broses o lunio datganiad clir, cryno a manwl o arwyddocâd.

Canllaw yn unig yw'r cwestiynau, ac mae'n bosibl na fydd pob un ohonynt yn berthnasol yn yr asesiad. Maent wedi'u cynnwys i sicrhau bod pob agwedd bosibl a allai fod yn berthnasol wedi'i hystyried a bod yr asesiad yn drylwyr ac mor wrthrychol ag sy'n bosibl. Gallwch ateb y cwestiynau i'r graddau y bydd eich gwybodaeth, eich dogfennau neu'ch ymchwil yn caniatáu i chi wneud hynny. Nodwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch, gan mai dyma'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn llunio ac yn ategu eich datganiad o arwyddocâd.

### 10.1 Dadansoddi'r gwrthrych / casgliad: disgrifiad manwl

Diben y disgrifiad manwl yw sicrhau bod y sawl sy'n cynnal yr asesiad yn gyfarwydd ag agweddau diriaethol y gwrthrych neu'r casgliad. Mae'r disgrifiad manwl yn sylfaen ar gyfer mynd i'r afael â'r gwerthoedd allweddol a'r meini prawf cymharol.

Bydd y sawl sy'n cynnal yr asesiad yn edrych ar y gwrthrych / casgliad yn fanwl. Bydd angen rhoi disgrifiad llawn o'r eitem, gan nodi unrhyw nodweddion pwysig, dyluniad ac arddull. Bydd disgrifiad manwl yn sicrhau bod unrhyw nodweddion arbennig yn cael eu nodi.

Gallai gwybodaeth am gasgliad neu wrthrych fod yn wybodaeth annatod (mae'n rhan o'r gwrthrych) neu gallai fod yn wybodaeth gysylltiedig sy'n golygu bod yn rhaid ei chael o ffynonellau eraill (y cyd-destun ehangach).

### YSTYRIWCH y cwestiynau canlynol:<sup>14</sup>

- O beth y mae wedi'i greu?
- Sut y mae'n edrych?
- Beth yw maint y casgliad? Beth yw mesuriadau'r gwrthrych: ei uchder, ei bwysau, ei hyd a'i led?
- Sut y cafodd ei greu?
- Beth yw nodweddion allweddol y gwrthrych neu'r casgliad?

### 10.2 Asesiad o gyflwr

Dylid darparu asesiad o gyflwr, gan gynnwys manylion ôl traul ac unrhyw waith atgyweirio, newidiadau ac addasiadau a wnaed. Gall yr asesiad hwn ddatgelu llawer am hanes y modd y câi gwrthrych neu gasgliad ei ddefnyddio

Dylid cofio mai mater o farn bersonol yw asesiad o gyflwr; mae'n bwysig felly eich bod yn amlinellu eich diffiniadau o gyflwr da / gweddol/gwael / gwael iawn cyn dechrau ar y broses asesu, a'ch bod yn defnyddio'r diffiniadau hynny'n gyson ac yn sicrhau eu bod ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb. Bydd hynny'n galluogi eraill i ddeall y modd yr ydych wedi dosbarthu'r gwrthrych neu'r casgliad.

Mae'r asesiad o gyflwr yn rhan o'r asesiad meini prawf cymharol. Yr asesiad o gyflwr a gynhelir gyntaf, ac mae'n bwysig eich bod yn gyfarwydd â chyflwr eich gwrthrych neu'ch casgliad cyn cynnig modd o'i ddefnyddio. Efallai y bydd angen i chi sicrhau bod gwrthrychau'n cael blaenoriaeth o ran cadwraeth, neu efallai y bydd angen i chi osod canllawiau llym ar gael mynediad iddynt ac ar eu trin a'u trafod, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn yr asesiad.

### YSTYRIWCH y cwestiynau canlynol:<sup>15</sup>

- Yn eich barn chi, pa un o'r canlynol sydd fwyaf addas i ddisgrifio cyflwr y gwrthrych?:

<sup>14&15</sup> Reed, C, 2012: *Reviewing Significance 2.0: Significance Assessment Grid questions*

- Da. Sefydlog a chadarn. Nid yw'n fregus ac nid oes unrhyw dystiolaeth o ddifrod neu ddirywiad. Mae modd ei ddefnyddio at unrhyw ddiben.
- Gweddol. Sefydlog. Efallai ei fod wedi'i andwyo neu'i ddifrodi rhywfaint. Ceir mân broblemau, ac mae'r gwaith adfer sy'n ofynnol er mwyn ei warchod yn fach iawn. Gellir ei ddefnyddio â gofal.
- Gwael. Mae'r arwyddion o ddirywiad a difrod yn amlwg. O'i ddefnyddio, gellid achosi difrod pellach.
- Gwael iawn. Deunydd ansefydlog. Mae'n gwbl anaddas i'w gyflwyno i ddefnyddwyr. Mae'n sicr y bydd yn cael ei ddifrodi os caiff ei drin a'i drafod.
- A oes unrhyw ddifrod?
- Sut y digwyddodd y difrod hwn?
- A yw wedi'i addasu? Beth y mae'r addasiadau'n ei ddweud wrthym am hanes y modd y câi ei ddefnyddio?
- A yw wedi cael ei warchod / adfer yn y gorffennol? (Nid oes angen ystyried hynny yn achos rhai casgliadau o sbesimenau megis sbesimenau botanegol)
- A yw'n gyflawn (hynny yw, a oes rhywbeth amlwg megis caead, dolenni ac ati ar goll)?

### 10.3 Ymchwil a chefnidir

Dylai'r sylfaen dystiolaeth hon gynnwys ymchwil dogfennol. Dylid ymgynghori â'r perchnogion blaenorol (os ydynt yn hysbys) ac ag unigolion sy'n gysylltiedig â'r eitem neu'r casgliad os yw hynny'n bosibl. Dylid archwilio'r cyd-destun llawn, a dylid cynnwys cysylltiadau â lleoedd, gwefannau a llenyddiaeth yn y sylfaen dystiolaeth. Dylid cynnwys gwybodaeth am darddiad a'r dull caffael, a dylid ystyried sut y mae'r gwrthrych / casgliad yn perthyn i ddiwydiant neu themâu, patrymau, mudiadau neu ddatblygiadau ehangach.

Gyda gwrthrychau a chasgliadau diwydiannol neu beiriannau trwm, mae'n bwysig nodi yn y fan hon a yw'r gwrthrych neu'r casgliad yn gweithio, a oes ganddo ddarnau sy'n symud ac a gaiff ei ddefnyddio at ddibenion arddangos.

Gyda chasgliadau sy'n ymwneud â byd natur, mae arwyddocâd biolegol y sbesimenau'n allweddol. Felly, bydd angen i chi ystyried meini prawf ychydig yn wahanol. Dylid amlinellu unrhyw feini prawf a ddewisir ar gyfer diffinio arwyddocâd casgliadau, megis casgliadau'n ymwneud â byd natur a daeareg, cyn i chi ddechrau ar eich asesiad o arwyddocâd, a dylid defnyddio'r meini prawf hynny'n gyson.

Mae'r asesiad o ymchwil a chefnidir yn ymchwilio'n fanylach i'r gwerthoedd allweddol a rhai o'r meini prawf cymharol.

#### YSTYRIWCH y cwestiynau canlynol:<sup>16</sup>

##### Gwerth hanesyddol

- Pwy oedd yn berchen arno o'r blaen?
- Ym mhle y cafodd ei gynhyrchu?
- Pwy a'i cynhyrchodd?
- Beth oedd ei swyddogaeth?
- Pryd y cafodd ei gaffael gan y sefydliad?
- Pam y cafodd ei gasglu?
- Sut y cafodd ei gaffael? Ai rhodd ydoedd ynteu rhywbeth a brynwyd?
- A oes cysylltiad uniongyrchol rhyngddo a digwyddiad, unigolyn neu grŵp hanesyddol ac ati?
- A yw'n cynrychioli thema, proses neu batrwm bywyd penodol?
- Sut y mae'n perthyn i hanes, daearyddiaeth neu amgylchedd y man lle cafodd ei greu neu ei ddefnyddio?

##### Gwerth celfyddydol / Esthetaid

- A yw / A oedd y dyluniad yn ddylanwadol neu'n arloesol?
- A yw'r dyluniad / gwneuthuriad o ansawdd uchel?
- A yw'n cynrychioli arddull, math, ysgol neu ddyluniad arbennig?

<sup>16</sup>Reed, C, 2012: *Reviewing Significance 2.0. Significance Assessment Grid questions*

## Gwerth cymdeithasol

- A yw'n cynrychioli cydberthynas?
- A yw'n symbol o gredoau, syniadau neu ddiwylliannau?
- A oes ganddo ystyr neilltuol ac amlwg i grŵp penodol o bobl yn y gymuned, neu i'r gymuned gyfan?
- Sut y dangosir yr ystyr a'r cysylltiad hwn?
- A yw'n rhan eiconig o'r casgliad? A yw'n ddarlun / gwrthrych a gaiff ei gyflwyno ac sydd er cof am rywbeth neu rywun?

## Gwerth gwyddonol / Technolegol

- A yw'n gweithio'n iawn? (Darnau sy'n symud, e.e. peiriannau. Efallai na fydd hynny'n berthnasol i bopeth)?
- A yw'r gwrthrych / casgliad yn berthnasol mewn modd amlwg i wyddoniaeth neu dechnoleg?

## Tarddiad

- A oes digon o ddogfennau ar gael ar gyfer y gwrthrych / casgliad?
- A yw'n ffynhonnell uniongyrchol?
- A allwch ddarparu'r dystiolaeth ar gyfer y cysylltiadau â phobl, lleoedd ac ati sydd gan y gwrthrych neu'r casgliad, yn ôl pob sôn?

## Capasiti o ran dehongli

- A yw'r gwrthrych neu'r casgliad yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd at ddibenion gwaith ymchwil / gwaith dysgu neu allgymorth?
- A oes ganddo'r potensial i gyfrannu at waith ymchwil, gwaith dysgu neu allgymorth?
- A yw'n ategu neu'n codi proffiliau ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol?
- A ofynnir yn aml am gael benthg y gwrthrych neu'r casgliad? Pam?

## 10.4 Cymharu: lleoedd ac eitemau cysylltiedig

Dylid nodi'r lleoedd a'r eitemau cysylltiedig, a dylid ymgynghori â chydweithwyr mewn sefydliadau eraill i geisio dod o hyd i enghreifftiau tebyg. Dylid defnyddio'r rhyngurwyd a chyfeirlyfrau at ddibenion cymharu, a dylid siarad â grwpiau a chymdeithasau arbenigol.

Bydd cymharu lleoedd ac eitemau cysylltiedig yn fodd i ymdrin yn fanylach â'r meini prawf cymharol sy'n weddill.

### YSTYRIWCH y cwestiynau canlynol:<sup>17</sup>

#### Tarddiad

- A yw'n perthyn i le / casgliad / gwrthrych penodol?

#### Prinder / natur gynrychioliadol

- A yw'n golygu rhywbeth i le / gymuned/ unigolyn penodol?
- A oes unrhyw enghreifftiau eraill ohono mewn amgueddfeydd yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol?
- Sut y mae'n perthyn i'r enghreifftiau eraill hyn?
- A yw'n unigryw?

## 10.5 Pennu arwyddocâd ar sail y meini prawf

Gan ystyried yr holl dystiolaeth a grynhowyd, dylech asesu'r gwrthrych neu'r casgliad yn erbyn y gwerthoedd allweddol, a phenderfynu pa rai o'r gwerthoedd allweddol a ategir gan sylfaen dystiolaeth gadarn. Dylech nodi'r gwerthoedd y ceir y dystiolaeth fwyaf cadarn ar eu cyfer. Gall mwy nag un o'r gwerthoedd fod yn berthnasol:

- gwerth hanesyddol
- gwerth celfyddydol neu esthetaid

<sup>17</sup>Reed, C, 2012: *Reviewing Significance 2.0. Significance Assessment Grid questions*

- potensial o safbwynt gwyddonol neu o safbwynt gwaith ymchwil
- gwerth cymdeithasol.

**Yna, dylech bennu lefel yr arwyddocâd gan ystyried y dystiolaeth sy'n ategu'r meini prawf cymharol canlynol:**

- Tarddiad;
- Prinder neu natur gynrychioliadol;
- Cyflwr neu gyflawnrwydd;
- Capasiti o ran dehongli.

**Bydd eich sylfaen dystiolaeth yn nodi'n glir a yw'r arwyddocâd yn bwysig:**

- Ar lefel leol, yn gysylltiedig ag ardal benodol (y bobl a'r lleoedd sydd ynddi): tref, pentref neu gymdogaeth.
  - Sut y mae'n cysylltu â gwerthoedd a diwylliant lleol?
- Ar lefel ranbarthol, yn gysylltiedig â rhanbarth sy'n cael ei diffinio gan ei nodweddion neu ei ffiniau: dinas, sir neu ardal fwy.
  - Sut y mae'n cysylltu â gwerthoedd a diwylliant rhanbarthol?
- Ar lefel genedlaethol, yn gysylltiedig â'r genedl neu'n nodweddiadol ohoni. Bydd ganddo apêl gyffredin.
- Dylid nodi a yw'r arwyddocâd ar lefel genedlaethol o safbwynt Cymru neu'r DU.
  - Sut y mae'n cysylltu â gwerthoedd a diwylliant cenedlaethol Cymru?
  - Sut y mae'n cysylltu â gwerthoedd a diwylliant cenedlaethol y DU?
- Ar lefel ryngwladol, yn gysylltiedig â diwylliant mwy nag un genedl (y tu hwnt i Ynysoedd Prydain).
- Sut mae'n cysylltu â gwerthoedd rhyngwladol a diwylliant?

## Rhan 3: Y templed

### 11. Ysgrifennu eich datganiad o arwyddocâd

Dyma'r adeg y byddwch yn casglu'r holl dystiolaeth sydd gennych ynghyd, yn crynhoi eich gwybodaeth ac yn creu datganiad clir a chryno o arwyddocâd. Bydd y datganiad yn crynhoi eich dealltwriaeth o'r gwrthrych / casgliad sydd yn eich gofal, a bydd yn cyfiawnhau'r penderfyniadau y byddwch yn

eu gwneud ynghylch rheoli casgliadau. Dylai fod modd cyfleu'r datganiad yn hawdd i randdeiliaid allweddol, a dylai gynorthwyo pobl i ddeall perthnasedd y gwrthrych / casgliad.

Mae taenlen EXCEL sy'n cynnwys meysydd y templed ar gael i'w lawrlwytho o wefan CyMAL. Gellir defnyddio'r daenlen ar gyfer yr asesiad matrices a'r asesiad llawn o arwyddocâd.

Enw'r amgueddfa:	
Enw'r sawl sy'n cynnal yr asesiad:	
Dyddiad yr asesiad:	
Enw'r gwrthrych / casgliad / grŵp o eitemau tebyg:	
Rhif derbyn y gwrthrych: Neu rif cyfresol y casgliad:	
Lleoliad cyfredol:	
Disgrifiad byr o'r gwrthrych / casgliad: e.e. gwisg filwrol	
Deunyddiau:	
Maint:	

<b>Peiriannau, gwyddoniaeth a diwydiant</b>	
A oes ganddo ddarnau sy'n symud?	
A yw'n dal i gael ei ddefnyddio?	

<b>Ffotograff neu lun</b>	
---------------------------	--

**Disgrifiad manwl:**

**Aseiad (technegol) o'r cyflwr:**

Dilëer fel y bo'n briodol: gwael iawn / gwael / gweddol / da

**Ymchwil a chefnidir**

**Cymharu: Lleoedd ac eitemau cysylltiedig**

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth ac edrych ar y prif feini prawf, rwyf wedi penderfynu bod arwyddocâd pennaf y gwrthrych yn perthyn i'r cyd-destun canlynol (gall mwy nag un cyd-destun fod yn berthnasol):

Hanesyddol	Cymdeithasol	Esthetaid neu gelfyddydol	Gwyddonol, ymchwil neu dechnegol	Arall (rhowch fanylion)

Meini prawf cymharol: Defnyddiwch y meini prawf cymharol i ATEGU AC EGLURO lefel yr arwyddocâd. Rhestr wirio yw'r blwch canlynol; bydd yn helpu i sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol wedi'i chrynhai. Efallai y byddwch wedi ymhelaethu ar y wybodaeth a grynhowyd yn yr adran uchod.

**Dylech ddefnyddio'r blwch fwy nag unwaith fel y bo angen ar gyfer gwahanol fathau o ddeunyddiau mewn casgliadau.**

<b>A yw'r cofnod o darddiad y gwrthrych / casgliad yn dda neu'n wael?</b>	<b>Da / Gwael</b>
<b>A yw'r gwrthrych / casgliad yn brin?</b>	<b>Ydy / Nac ydy</b>
<b>Beth y mae'r gwrthrych / casgliad yn ei gynrychioli?</b> <b>Enwch sefydliad sydd â chasgliad / gwrthrych tebyg.</b>	
<b>A yw'r gwrthrych/casgliad yn gyflawn</b> <b>Fel gwrthrych neu fel cyfres, h.y. pâr o esgidiau, tebot gyda chaead, set gyflawn o fedalau?</b> <b>Os nad ydych yn siŵr, gadewch yr adran hon yn wag.</b>	
<b>A allai fod gan y gwrthrych / casgliad gapasiti o ran dehongli? Beth y mae o gymorth i'w ddehongli?</b>	
<b>Blwch testun gwag ar gyfer nodiadau ychwanegol</b>	



Ar sail y dystiolaeth a grynhowyd, rydym o'r farn mai ein heitem neu'n casgliad ni sydd â'r arwyddocâd pennaf ar y lefel ganlynol:

<b>Lefel yr arwyddocâd</b>	<b>Ticiwch y blwch perthnasol</b>
<b>Lefel ryngwladol</b>	
<b>Lefel genedlaethol – Cymru neu'r DU</b>	
<b>Lefel ranbarthol</b>	
<b>Lefel leol</b>	

## **Datganiad o arwyddocâd**

Gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth a grynhowyd uchod, diffiniwch sut a pham y mae'r gwrthrych / casgliad yn arwyddocaol, a beth y mae hynny'n ei olygu ar gyfer y gwrthrych / casgliad. Crynowch y prif bwyntiau yn y blwch isod. Dyma'r testun y byddwch yn ei ddefnyddio i gyfiawnhau eich honiad bod eich gwrthrych / casgliad yn arwyddocaol mewn cyd-destun penodol. Dyma'r testun y byddwch yn ei rannu ag ymddiriedolwyr, cyllidwyr a rhanddeiliaid.

**Llofnodwch a nodwch ddyddiad yr asesiad:**

**Rhestrwch y cyfeiriadau:**

**Rhestrwch a chydabyddwch y cyfranwyr**

**Datganiad o arwyddocâd:**

## 12. Beth nesaf?

Mae angen i'r sefydliad sy'n casglu ystyried ym mhle y caiff y wybodaeth ei storio yn y tymor hir, ac ystyried y defnydd a wneir o'r wybodaeth yn ystod oes y casgliad.

### Storio

Pan fydd yr holl ddata wedi'i grynhoi, dylid storio'r dystiolaeth mewn cronfa ddata ddiogel gyda chofnodion eraill sy'n perthyn i'r eitemau neu'r casgliad. Mae'r asesiad matrices yn cynhyrchu cyfuniad sy'n cynnwys llythyren a rhif, a dylid nodi'r cyfuniad hwnnw ar labeli storfeydd er mwyn cyfeirio at y dystiolaeth yn gyflym.

### Defnyddio'r wybodaeth

Yna, gellir defnyddio'r wybodaeth fel y bo angen i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch rheoli casgliadau.

### Bydd y dystiolaeth a grynhowyd o gymorth i wneud y canlynol:

- Derbyn eitemau'n ffurfiol;
- Cael gwared ar eitemau'n ffurfiol;
- Rheoli adnoddau;
- Adolygu casgliadau;
- Datblygu arddangosfeydd;
- Blaenoriaethu gwaith;
- Cynllunio prosiectau cadwraeth;
- Pennu blaenoriaethau o ran yr hyn y dylid ei achub;
- Gwneud ceisiadau am gyllid.

Dylid ychwanegu'r datganiad o arwyddocâd at y ffurflen derbyn eitemau'n ffurfiol er mwyn nodi'n glir y cyfiawnhad dros dderbyn gwrthrych i'r casgliad.

### Gweithdai

Gallai cynnal gweithdy pennu arwyddocâd yn eich sefydliad neu gyda sefydliadau eraill fod yn gyfle i bobl gyflwyno astudiaethau achos o'u llwyddiannau wrth ddefnyddio'r broses pennu arwyddocâd. Byddai'n gyfle i drafod a nodi problemau sy'n gysylltiedig â'r broses.

### Rhwydweithiau

Efallai y bydd angen i sefydliadau llai o faint sydd â nifer cyfyngedig o staff proffesiynol gael mynediad i rwydwaith proffesiynol o warchodwyr a churaduron i'w cynorthwyo gyda'u hasesiadau.

### Mentoriaid

Gallai datblygu perthynas ag arbenigwr mewn maes penodol sy'n gysylltiedig â chasgliadau ddarparu cyfle i ddysgu am eich casgliad a chael mynediad ar yr un pryd i'r wybodaeth y mae ei hangen er mwyn cwblhau asesiad.

**Os hoffech gymryd rhan mewn rhwydwaith neu weithdy, cysylltwch â CyMAL i gael cyngor pellach.**

## 13. Cyfeiriadau

Arts Council England (ACE). 2011. Accreditation Scheme for Museums and Galleries in the United Kingdom.

British Standards Institute (BSI). 2009. Publicly Available Specification (PAS) 197:2009 *Code of practice for cultural collections management*

Collections Council of Australia (CCA). 2009. *Significance 2.0: a guide to assessing the significance of collections.*

Museum Association Code of Ethics. 2007

Museums Documentation Association (MDA). 2005. *SPECTRUM: The UK Museum Documentation Standard.*

Collections Trust (MDA). 2011. *SPECTRUM 4.0. The UK Museum Documentation Standard.*

Museums and Galleries Commission. 1994. *Standards in the Museum Care of Larger and Working Objects: Social and Industrial History Collections.*

Reed, C et al, 2010: *Reviewing Significance.* Renaissance East Midlands.

Reed, C, 2012: *Reviewing Significance 2.0.* Caroline Reed Consulting.

Llywodraeth Cymru: CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru. 2010. Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-1015.

## 14. Llyfryddiaeth

Arts Council England (ACE). 2011. Accreditation Scheme for Museums and Galleries in the United Kingdom.

British Standards Institute (BSI). 2009. Publicly Available Specification (PAS) 197:2009 *Code of practice for cultural collections management*

CEN. 2011: Conservation of cultural property – Main general terms and definitions.

Collections Council of Australia (CCA). 2009. *Significance 2.0: a guide to assessing the significance of collections.*

Museum Association Code of Ethics. 2007

Museums Documentation Association (MDA). 2005. *SPECTRUM: The UK Museum Documentation Standard.*

Collections Trust (MDA). 2011. *SPECTRUM 4.0. The UK Museum Documentation Standard.*

Museums and Galleries Commission. 1994. *Standards in the Museum Care of Larger and Working Objects: Social and Industrial History Collections.*

Piazza, R.V. 2007. Introduction: An object and its context. In: *ICCROM Sharing Conservation Decisions.* OGRARO: Rome, Italy. 82-83

Reed, C et al, 2010: *Reviewing Significance.* Renaissance East Midlands.

Reed, C, 2012: *Reviewing Significance 2.0.* Caroline Reed Consulting.

Llywodraeth Cymru: CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru. 2010. Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-1015.

## 15. Gwefannau

Cyngor Casgliadau Awstralia, Significance 2.0 (11/2010)

Significance International

[www.significanceinternational.com/](http://www.significanceinternational.com/)

Collections Australia Network

[www.collectionsaustralia.net/search.php?search=significance](http://www.collectionsaustralia.net/search.php?search=significance)

Renaissance East Midlands (11/2010)

Assessing Significance Network (19/01/11)

[www.collectionslink.org.uk/programmes/reviewing-significance/671-collections-reviewing-significance-framework](http://www.collectionslink.org.uk/programmes/reviewing-significance/671-collections-reviewing-significance-framework)

Casgliad y Werin Cymru

[www.peoplescollectionwales.co.uk](http://www.peoplescollectionwales.co.uk)

Collections Link (14/05/12)

[www.collectionslink.org.uk/programmes/reviewing-significance/671-collections-reviewing-significance-framework](http://www.collectionslink.org.uk/programmes/reviewing-significance/671-collections-reviewing-significance-framework)

# Grid y Matrics

		1	2 DU neu Cymru	3	4
		<b>Yn bwysig ar lefel ryngwladol o safbwynt:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esthetaidd</li> <li>• celfyddydol</li> <li>• hanesyddol</li> <li>• gwyddonol</li> <li>• cymdeithasol</li> </ul>	<b>Yn bwysig ar lefel genedlaethol o safbwynt:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esthetaidd</li> <li>• celfyddydol</li> <li>• hanesyddol</li> <li>• gwyddonol</li> <li>• cymdeithasol</li> </ul>	<b>Yn bwysig ar lefel ranbarthol o safbwynt:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esthetaidd</li> <li>• celfyddydol</li> <li>• hanesyddol</li> <li>• gwyddonol</li> <li>• cymdeithasol</li> </ul>	<b>Yn bwysig ar lefel leol o safbwynt:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esthetaidd</li> <li>• celfyddydol</li> <li>• hanesyddol</li> <li>• gwyddonol</li> <li>• cymdeithasol</li> </ul>
<b>A</b>	<b>Cyflwr:</b> da	<b>1A</b>	<b>2A</b>	<b>3A</b>	<b>4A</b>
<b>B</b>	<b>Cyflwr:</b> gweddol	<b>1B</b>	<b>2B</b>	<b>3B</b>	<b>4B</b>
<b>C</b>	<b>Cyflwr:</b> gwael	<b>1C</b>	<b>2C</b>	<b>3C</b>	<b>4C</b>
<b>D</b>	<b>Cyflwr:</b> gwael iawn	<b>1D</b>	<b>2D</b>	<b>3D</b>	<b>4D</b>
		<b>Casgliad craidd</b>	<b>Casgliad craidd</b>	<b>Casgliad craidd</b>	<b>Casgliad craidd</b>

5	6	7
<b>Atgynyrchiadau</b>	<b>Yn bwysig o ran addysgu / trin a thrafod</b>	<b>Addurno arddangosfeydd</b>
<b>5A</b>	<b>6A</b>	<b>7A</b>
<b>5B</b>	<b>6B</b>	<b>7B</b>
<b>5C</b>	<b>6C</b>	<b>7C</b>
<b>5D</b>	<b>6D</b>	<b>7D</b>
<b>Casgliad ategol</b>	<b>Casgliad ategol</b>	<b>Casgliad ategol</b>

## Atodiad i

### Significance 2.0

Yn 2001 cyhoeddodd Cyngor Casgliadau Awstralia'r ddogfen Significance: a guide to assessing the significance of cultural heritage objects and collections. Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r ddogfen yn 2009.

Ysgrifennwyd Significance 2.0 gan Roslyn Russell a Kylie Winkworth. Rheolwr y prosiect oedd Veronica Bullock. Ym mis Gorffennaf 2010, trefnodd CyMAL gyfarfod â Veronica Bullock ym Mhrifysgol Caerdydd. Gwahoddwyd partion eraill a oedd â diddordeb yn y maes i'r digwyddiad hwn. Esgorodd y cyfarfod ar ddadl ddiddorol, a helpodd i lunio'r dull gweithredu y byddai CyMAL yn ei fabwysiadu gyda'n proses ni.

Lansiwyd Significance International yn 2010 gyda'r nod canlynol *'provide local, national and international services in the areas of significance and preservation assessments of collections, as well as more general collections and strategic planning guidance'*.

Penaethiaid **Significance International** yw Veronica Bullock a Roslyn Russell – Veronica Bullock oedd rheolwr y prosiect, a Roslyn Russell oedd cyd-awdur Significance 2.0 – a guide for assessing the significance of collections (2009), Cyngor Casgliadau Awstralia.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

[www.significanceinternational.com](http://www.significanceinternational.com)

## Atodiad ii

### Renaissance East Midlands. Reviewing Significance: a framework for assessing museum collections' significance, management and use. Medi 2010

*"In November 2009 Renaissance East Midlands (REM) commissioned consultants Caroline Reed, Jayne Dunn, Subhadra Das and Emma Passmore to develop a regional framework to establish criteria and offer a methodology for reviewing the significance of key museum objects and of whole and part museum collections across the region. The project was managed for REM by consultant Stuart Davies and led by Jonathan Wallis, Assistant Head of Derby Museums.*

*The aim is to enable East Midlands museums to take a lead in tackling the issue of assessing collections' significance in a structured way that can be used to inform their strategic planning for collections management, use and interpretation. A key objective for the project was to develop a regional approach to assessment that highlights the importance of collections to small, specific or local communities as much as to regional, national and international audiences."*

(Daw'r testun hwn o Reed. C. 2010. Renaissance East Midlands. Reviewing Significance Framework. t.3).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

[www.collectionslink.org.uk/programmes/reviewing-significance/671-collections-reviewing-significance-framework](http://www.collectionslink.org.uk/programmes/reviewing-significance/671-collections-reviewing-significance-framework)



## Atodiad iii

### **Amgueddfa Cymru (AC-NMW): Significance Assessment Grid and Levels of Accessioning Matrix**

Datblygodd Grŵp Lefelau Derbyn Eitemau'n Ffurfiol Amgueddfa Cymru fframwaith yn benodol i'w ddefnyddio gyda chasgliadau'r amgueddfa. Mae gan Amgueddfa Cymru dros 5 miliwn o wrthrychau a gedwir mewn ymddiriedolaeth ar ran Cymru.

Mae nifer sylweddol o wrthrychau yn y casgliad wedi ôl-gronni, a gwelodd Amgueddfa Cymru fod angen creu adnodd clir, hawdd ei ddefnyddio er mwyn ymdrin â chasgliadau mawr a gwrthrychau a oedd wedi ôl-gronni.

Archwiliodd Amgueddfa Cymru amryw fodelau, gan gynnwys Matrics Graddio Hampshire, er mwyn datblygu proses a oedd yn addas i anghenion yr amgueddfa.

Mae Amgueddfa Cymru wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i lunio'r ddogfen hon, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei chyfraniad.